

1. Aelodau'n Presennol Mr Dafydd Rushworth (Cadeirydd)  
G Morris, G Stuart, Wendy M Griffiths, Carol Ann Jones,  
Gwynfor Owen, Rhys Owen, Ceri Jones  
Cyng Wil Hughes ar Cyng Richard Jones

2. Ymddiheuriadau Mr Dennis Evans

3. Datgan Diddordeb

4. Darllenwyd ac arwyddwyd Cofnodion Cyfarfod Mawrth 2015

**5. MATERION YN CODI**

a) Tir Ty'n Llidiart/ Cae Chwarae

i) Ffrindiau Parc Rhosybol

- 'Cronfa ar gyfer gwella Amgylchedd a'r Gymuned - £3K yn y banc
- Arian Horizon - £2K yn y banc
- Participatory Budget Fund /Heddlu G C - £3K yn y banc
- Angen anfon cytundeb yn ol at Grantscape (Cronfa Ysgello)

ii) Prydles o'r Cyngor Sir wedi'i derbyn.

Cytunwyd i anfon sic am £20 i'r twran i'w chofrestru gyda'r 'Land Registry'  
ac angen ID oddiwrth Dafydd Rushworth ac Wendy M Griffiths ( y ddau sydd wedi  
arwyddo'r brydles ar ran y Cyngor Cymuned)

b) Safle We Rhosybol

Cadarnhaodd y clerc bod Infois wedi'i dderbyn a'i dalu ac bod y Cofnodion yn dechrau cael eu  
cynnwys ar y wefan

c) Drysau'r cloc – Pris o £120 yr un am y drysau gan Hari Jones (wedi'u peintio a'u gosod)

Mae'r clerc wedi gofyn am bris ysgrifennedig gyda manylion llawn.

Angen cael pris arall i'w gymharu.

ch) Shell Rhosgoch

Cafwyd adroddiad gan Gwilym Morris a Geotge Stuart yn dilyn cyfarfod yn swyddfa Cyngor  
Tref Amlwch rhwng yr cynghorau cymuned lleol gyda Rhun Ap Iorwerth ac Albert Owen i  
geisio rhoi pwysa ar y Cyngor Sir i ohirio gwerthu safle Rhosgoch am gyfnod pellach.

Mynegwyd cefnogaeth i lythyr i'w anfon ymlaen at yr Ymddiriedolaeth Elusennol Mon

d) Cafwyd adroddiad gan Gwilym Morris yn dilyn Noson Gwriciwlaid / Y Siarter Iaith Gymraeg

yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Cafwyd cefnogaeth ardderchog gan y rhieni gyda  
darpariaeth i hybu'r iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

**6. LLYTHYRAU**

a) Archwiliad 2014/15

Angen y llyfrau am archwiliad mewnol at Mr J Roberts erbyn 12fed Mai 2015 iddo wneud y  
pecyn yn barod ar gyfer yr archwiliad allanol erbyn 28 Mehefin 2015

- b) CSYM – gwaith o flaen yr ysgol wrthi'n cael ei wneud
- c) CSYM – Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith Ebrill 2015 at Tach 2015
- ch) Un Llais Cymru – Papur Gwyn - e.bost / gwybodaeth wedi ei ddsbarthu dim sylwadau I'w nodi ar y cynnwys.
- d) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd Cyfafodydd – un lleol yng Nghaegybi ar 12 Mai 2015

**7. MATERION CYNLLUNIO**

**A) CEISIADAU CYNLLUNIO WEDI EU TRAFOD ERS Y CYFARFOD DIWETHAF**

Manylion diweddaraf ynglyn ac 'Y Bywyd Da' – gyda'r aelodau yn argemhell bod rhain yn cael eu caniatáu.

**B) CEISIADAU CYNLLUNIO ANGEN EU TRAFOD**  
DIM

**C) PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**  
DIM

**8. BILIAU**

Angen eu talu:

- a) Cyflog y clerc (Ebrill) £222.32
- b) Siec i'r twrna par Prydles Ty'n Llidiart £20

**9. MATERION ERAILL**

- i) Y clerc i wneud ymholidau ynglyn ar sefyllfa diweddaraf ar Capel Bach ac y porth newydd sydd wedi ei chreu ar dir Gorslwyd Fawr